# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 10fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Arwel Davies, Huw Charles, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Thomas, Huw Edwards, Rhys Jones, Geraint Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Geraint Thomas i'w gyfarfod cyntaf.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.**
a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu gwaith cynnal i ddarganfod pan fod y dŵr yn hel ger Hafod y Nant, Parc.
ii) Roedd gwaith draenio wedi cael ei drefnu wrth fynedfa Wern Goch, Parc.
iii) Pan fyddai'r adnoddau ar gael bydd y ffos ger encilfa Nant yr Helfa yn cael sylw.
iv) Roedd y gweithlu am ymgymryd â'r gwaith adfer y 'draen ffrennig' ger croesffordd Arenig.
v) Roedd cais wedi cael ei wneud i'r Tîm Glanhau Strydoedd ddod a'r sweeper i ardal Llidiardau.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Canolfan Henblas.
i) Lansiad Car Cymunedol Y Bala a Phenllyn.
ii) Holiadur Digidol.

b) Un Llais Cymru.
i) Polisi Pryderon a Chwynion. Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi newydd a'i arddangos ar y wefan.

c) Llywodraeth Cymru.
i) Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

ch) Cyngor Gwynedd.
i) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Amryw Ffyrdd Sirol, Gwynedd) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 2026 – Rhybudd 1af.

## v) Ceisiadau Cynllunio.
i) NP5/72/36A – Trosi ysgubor ynghlwm presennol i ffurfio estyniad i annedd. Ty'n-y-Bryn, Rhyduchaf.
ii) NP5/72/BT262 – Hysbysiad o flaen llaw ynglyn â gosod oddeutu 2km o diwbiau PVC tanddaearol a 9 blwch cyffredinol yn y ffordd. Rhan o'r B4391, Migneint-Arenig.
iii) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed rhif 49 yng Nghymuned Llanycil) Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2025.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

**vi) Materion Ariannol.**

a) Llywodraeth Cymru.
Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2026-27.

b) Adroddiad Ariannol (Hyd-Rhag 2025).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Derbyniadau.
Cronfa Gwynedd Ni - £2242.04

ch) Ceisiadau ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Urdd Cylch Meirionnydd, Marie Curie, Llen y Llannau a Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Draen gyferbyn a Phreswylfa, Parc.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi dod allan ar frys i drwsio'r ffordd ger Preswylfa ar ôl i ddraen suddo a gadael twll mawr yn y ffordd.

b) Cyflwr y ffordd i gyfeiriad Tŷ Du a Chwm Tylo, Parc.
Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i fynegi pryderon am gyflwr y ffordd oherwydd y nifer o loriau mawr oedd yn teithio arni'n ddyddiol yn cario deunydd i wneud ffordd newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd difrod i bont Cwm Tylo hefyd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 10fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….